

RHAGFYR 24

GŴYLNOS Y NADOLIG - GWEDDIAU

Yntred (Entrance Antiphon):

Heddiw, byddwch yn gwybod y bydd yr Arglwydd yn dod ,
a bydd yn achub ni, ac yn y bore cewch weld ei ogoniant.

Colect (Collect):

Duw ein Tad,
Rydym yn llawenhau bob blwyddyn
Wrth inni edrych ymlaen at yr ŵyl hon o'n iachawdwriaeth.
Boed inni groesawu Crist fel ein Gwardwr,
a mynd i'w gyfarfod yn hyderus pan ddaw fel ein barnwr,
sydd gyda thi yn undod yr Ysbryd Glân yn Dduw byw,
a'i frenhiniaeth yn parhau yn oes oesoedd.

Amen

**Credaf yn un Duw, Tad Hollalluog,
gwneuthurwr nef a daear
a phopeth gweledig ac anweledig.
Ac yn un Arglwydd Iesu Grist,
unig-anedig Fab Duw,
wedi ei genhedlu o'r Tad cyn yr holl oesoedd.
Duw o Dduw, llewych o lewych,
gwir Dduw o wir Dduw,
wedi ei genhedlu, nid wedi ei wneuthur,
yn un hanfod a'r Tad,
yr Hwn y gwnaed popeth drwyddo;
yr Hwn, erom ni ddynion ac er ein hiachawdwriaeth
a ddaeth i lawr o'r nefoedd,**

Pawb yn penlinio yn ystod y ddwy linell a ganlyn:

**ac a gnawdolwyd trwy'r Ysbryd Glân o Fair Forwyn,
ac a ddaeth yn ddyn.**

Ennyd o ryfeddod tawel, nes i gloch ganu, safwn a pharhau:

**Croeshoeliwyd ef hefyd drosom ni dan Pontius Pilat,
dioddefodd, ac fe'i claddwyd.**

**Ac atgyfododd y trydydd dydd yn ôl yr Ysgrythurau,
ac esgynnodd i'r nef, ac eistedd ar ddeheulaw'r Tad;
a daw ef drachefn mewn gogoniant**

**i farnu'r byw a'r meirw,
a diwedd ni bydd ar ei deyrnas.**

**A chredaf hefyd yn yr Ysbryd Glân,
yr Arglwydd a'r Bywiawdwr,**

**sy'n deillio o'r Tad a'r Mab,
yr Hwn gyda'r Tad a'r Mab**

**a gydaddolir ac a gydogoneddir,
ac a lefarodd drwy'r proffwydi.**

Ac yn un Eglwys lân, gatholig ac apostolig.

Addefaf un bedydd er maddeuant pechodau.

**A disgwyliaf atgyfodiad y meirw
a bywyd y byd sydd i ddyfod. Amen.**

Gweddi'r Offrwm (Prayer over the Gifts):

Arglwydd, wrth inni gadw gwylnos y Nadolig heno,
boed inni ddathlu'r ewcharist hwn
gyda mwy o lawenydd nag erioed
gan ei fod yn nodi dechreuad ein gwardigaeth.
Trwy Grist ein Harglwydd.

Amen.

Adnod y Cymun (Communion Antiphon):

Datguddir gogoniant yr Arglwydd,
a holl blant dynion ynghyd yn ei weld.

Wedi'r Cymun (Prayer After Communion):

Dad, Gofynnwn iti roddi inni enedigaeth newydd wrth i ni
ddathlu dechreuad bywyd dy Fab ar y ddaear. Nertha ni mewn
ysbryd wrth inni dderbyn dy fwyd a'th ddiod.
Trwy Grist ein Harglwydd.

Amen

Bendith difrifol (Solemn Blessing)

Yr Arglwydd a fo gyda chwi

A chyda thithau

Plygwch eich pennau a gweddio am fendith Duw.

Pan ddaeth atom ni fel dyn,
chwalodd Fab Duw dywyllwch y byd hwn,
a llenwi'r noson sanctaidd hon gyda'i ogoniant.
Boed i Dduw y daioni diddiwedd
chwalu dywyllwch pechod
a gloywi'n calonnau gyda sancteiddrwydd.

Amen.

Anfonodd Duw ei angylion at y bugeiliaid
i gyhoeddi'r llawenydd mawr o enedigaeth ein Gwaredwr.
Boed iddo eich llenwi chi â llawenydd
a'ch gwneud yn gyhoeddwyr ei efengyl.

Amen.

Pan ddaeth y Gair yn ddyn
ymunwyd nef a daear.
Boed iddo roddi ichi ei dangnefedd a'i ewyllys da,
a chymdeithas gyda'r llu nefol.

Amen.

Bendith Duw Hollalluog a fo gyda chwi,
y Tad a'r Mab + a'r Ysbryd Glân

Amen

Awn ymaith mewn tangnefedd

Diolch i ti, O Dduw

RHAGFYR 24

GŴYLNOS Y NADOLIG – DARLLENIADAU

Y Darlleniad Cyntaf (First Reading):

Daw'r darlleniad cyntaf o lyfr y proffwyd Eseia:

Er mwyn Seion ni thawaf,
er mwyn Jerwsalem ni fyddaf ddistaw,
hyd oni ddisgleiria'i chyfiawnder yn llachar,
a'i hiachawdwriaeth fel ffagl yn llosgi.
Bydd y cenedloedd yn gweld dy gyfiawnder,
a'r holl frenhinoedd dy ogoniant;
gelwir arnat enw newydd,
a roddir i ti o enau'r Arglwydd.
Byddi'n goron odidog yn llaw'r Arglwydd,
ac yn dorch frenhinol yn llaw dy Dduw.
"Ni'th enwir mwyach, Gwrthodedig,
ac ni ddywedir drachefn am dy wlad, Anghyfannedd;
eithr enwir di, Heffsiba',
a'th wlad, Beula',
oherwydd ymhyfryda'r Arglwydd ynot,
a phriodir dy wlad.
Fel y bydd llanc yn priodi merch ifanc,
bydd dy adeiladydd yn dy briodi di;
fel y bydd priodfab yn llawen yn ei briod,
felly y bydd dy Dduw yn llawen ynot ti.

Gogoniant i Dduw am Ei Air
Diolch i ti, O Dduw

Salm (Psalm):

Canaf byth am dy gariad, O Arglwydd.

Gwneuthum gyfamod â'm hetholedig,
a thyngu wrth Ddafydd fy ngwas:
Gwnaf dy had yn sefydlog am byth,
a sicrhau dy orsedd dros y cenedlaethau.

Canaf byth am dy gariad, O Arglwydd.

Gwyn eu byd y bobl sy'n medru dy gyfarch,
sy'n rhodio, Arglwydd, yng ngoleuni dy wyneb,
sy'n gorfoleddu bob amser yn dy enw,
ac yn llawenhau yn dy gyfiawnder.

Canaf byth am dy gariad, O Arglwydd.

Bydd yntau'n galw arnaf, 'Fy nhad wyt ti,
fy Nuw a chraig fy iachawdwriaeth.'
Cadwaf fy ffyddlondeb iddo hyd byth,
a bydd fy nghyfamod ag ef yn sefydlog.

Canaf byth am dy gariad, O Arglwydd.

Yr Ail Ddarlleniad (Second Reading)

Daw'r ail ddarlleniad o Lyfr yr Actau

Wedi i Paul gyrraedd Antiochia yn Pisidia, aeth i'r synagog, ac wedi amneidio â'i law, dywedodd:

"Wŷr Israel, a chwi sy'n ofni Duw, gwrandewch. "Duw'r bobl hyn, Israel, fe ddewisodd hwn ein tadau ni, a dyrchafodd y bobl pan oeddent yn estroniaid yng ngwlad yr Aifft, ac a braich estynedig fe ddaeth â hwy allan oddi yno.

Yna fe gododd ef Dafydd yn frenin iddynt, a thystiolaethu iddo gan ddweud, 'Cefais Ddafydd fab Jesse yn wŷr wrth fodd fy nghalon, un sy'n gwneud popeth yr wyf yn ei ddymuno.' O blith disgynyddion hwn y daeth Duw, yn ôl ei addewid, a Gwardwr i Israel, sef Iesu. Yr oedd Ioan eisoes, cyn iddo ef ddod, wedi cyhoeddi bedydd edifeirwch i holl bobl Israel. Ac wrth ei fod yn cwblhau ei yrfa, dywedodd Ioan, 'Beth yr ydych chi'n tybio fy mod? Nid hynny wyf fi. Na, dyma un yn dod ar f'ôl i nad wyf fi'n deilwng i ddatod y sandalau am ei draed.'

Gogoniant i Dduw am Ei Air

Diolch i ti, O Dduw

Cyfarchiad i'r Efengyl (Gospel Acclamation)

Aleliwia, aleliwia!

Yfory daw diwedd ar bechod y byd
a gwardwr y byd fydd ein brenin.

Aleliwia!

Yr Arglwydd a fo gyda chi
A chyda thithau

Yr Efengyl (The Gospel) [Matthew 5:13-16]

Darlleniad o'r Efengyl yn ôl Mathew
Gogoniant i ti, O Arglwydd

Fel hyn y bu genedigaeth Iesu Grist. Pan oedd Mair ei fam wedi ei dyweddio i Joseff, cyn iddynt briodi fe gafwyd ei bod hi'n feichiog o'r Ysbryd Glân. A chan ei fod yn ddyn cyfiawn, ond heb ddymuno ei chywilyddio'n gyhoeddus, penderfynodd Joseff, ei gŵr, ei ollwng maith yn ddirgel. Ond wedi iddo gynllunio felly, dyma angel yr Arglwydd yn ymddangos iddo mewn breuddwyd, a dweud, "Joseff fab Dafydd, paid ag ofni cymryd Mair yn wraig i ti, oherwydd y mae'r hyn a genhedlwyd ynndi yn deillio o'r Ysbryd Glân. Bydd yn esgor ar fab, a gelwi ef Iesu, am mai ef a wareda ei bobl oddi wrth eu pechodau." A digwyddodd hyn oll fel y cyflawnid y gair a lefarwyd gan yr Arglwydd trwy'r proffwyd:

"Wele, bydd y wryf yn beichiogi, ac yn esgor ar fab,
a gelwir ef Immanuel",

hynny yw, o'i gyfieithu, "Y mae Duw gyda ni". A phan ddeffrodd Joseff o'i gwsg, gwnaeth fel yr oedd angel yr Arglwydd wedi gorchymyn, a chymryd Mair yn wraig iddo. Ond ni chafodd gyfathrach â hi hyd nes iddi esgor ar fab; a galwodd ef Iesu.

Gogoniant i Dduw am ei Air
Moliant i ti, O Grist